# Polisïau Canllaw ar Orfodi a Chanslo Hysbysiadau Tâl Cosb

# Guidance Policies for the Enforcement & Cancellation of Penalty Charge Notice

Canllawiau yn unig yw'r polisïau a nodir yn y ddogfen hon. Rhaid ystyried pob achos ar ei haeddiant ei hun, gan edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac ystyried pa mor eithriadol yw'r amgylchiadau.



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**POLISÏAU AR ORFODI A CHANSLO HYSBYSIADAU TÂL COSB**

**RHAGYMADRODD**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi paratoi'r canllawiau polisi isod mewn perthynas â Gorfodaeth Parcio Sifil. Mae'r polisïau yn y ddogfen hon wedi'u bwriadu i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i gynnig canllawiau i weithwyr y cyngor sy'n gorfodi'r rheoliadau parcio wrth eu gwaith.

Mae'r canllawiau'n gyson â'r arferion gorau ar hyn o bryd ac maent yn ceisio darparu eglurder, cysondeb a thryloywder yn y broses orfodi, gan gydymffurfio hefyd â dyheadau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Dyfarnu ynglŷn â Pharcio a'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

Yr hyn sy'n bwysig am y polisïau hyn yw eu bod yn sylfaen i arfer tegwch a disgresiwn arnynt. Mae'r llysoedd wedi cydnabod pwysigrwydd hyblygrwydd yn y materion hyn ac, o ganlyniad, rhaid i'r penderfyniadau a wneir gan gynghorau beidio â chael eu llyffetheirio drwy fod yn rhy fformiwläig.

Mae'r polisïau yn ymdrin â'r isod:

- *Amseroedd arsylwi i staff gorfodi*
- *Ar ba seiliau statudol y ceir cyflwyno sylwadau*
- *Amgylchiadau lliniaru*
- *Derbyn neu wrthod her neu sylwadau*

Mae'n bwysig cydnabod y bydd pob achos yn cael ei ystyried ar ei haeddiant unigol. Dylid rhoi'r pwys mwyaf ar gymesuredd, gwrthrychedd, tegwch a rhesymoldeb.

**Bydd y polisïau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus.**

| **Codau/Tramgwyddau HTC Safonol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tramgwyddau Ar y Stryd** | | | | | |
| **Cod** | **Amser Arsylwi** | **Lefel y Tramgwydd** | **Disgrifiad** | **Meini Prawf Tystiolaeth Arsylwi** | **Ystyriaethau Arbennig** |
| 01 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau penodedig. | Llinellau melyn sengl neu ddwbl.<br>Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho.<br>Arsylwi llymach os yw'n anabl. | Arsylwi am 5 munud.<br>Rhaid i fathodynnau fod yn ddilys (h.y. nid yw 'cloc amser yn unig' yn ddigonol). |
| 02 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn stryd gyfyngedig tra mae llwytho a dadlwytho wedi'u gwahardd. | Llinellau. Rhaid i'r plât wahardd llwytho. Rhaid bod marciau cwrbyn. | Tocyn ar unwaith oni welir teithwyr yn cael eu codi/eu rhoi i lawr – arsylwch am 2 funud ond defnyddiwch ddisgresiwn o ran teithwyr methedig/anabl. HTCau i gael eu rhoi am barcio gan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddeiliaid bathodyn anabl. |
| 02J | 0 Mun | Uwch | Parcio neu lwytho/dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau aros a llwytho/dadlwytho mewn grym (gorfodaeth camera). | Rhaid cael marciau cyrbau. | Tocyn ar unwaith. |
| 12 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn cilfach barcio i drigolion neu gilfach barcio rhannu defnydd heb arddangos un ai drwydded barcio neu docyn talu ac arddangos a roddwyd ar gyfer y lle hwnnw. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. Arsylwi am 5 munud o ran llwytho cerbyd. | Edrych ar y dyddiadau dod i ben ar drwyddedau parcio a arddangosir. Gwirio a rhoi gwybod am achosion lle'r amheuir twyll neu gamddefnyddio trwydded. |
| 14 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn man gwefru cerbydau trydan yn ystod oriau cyfyngedig heb wefru. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Os nad yw'r cerbyd yn defnyddio pwynt gwefru. | Tocyn ar unwaith. |
| 16 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn cilfach barcio lle mae rhaid wrth drwydded barcio heb arddangos trwydded barcio ddilys. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. Arsylwi am 5 munud o ran llwytho cerbyd. | Edrych ar y dyddiadau dod i ben ar drwyddedau parcio a arddangosir. Gwirio a rhoi gwybod am achosion lle'r amheuir twyll neu gamddefnyddio trwydded. |
| 19 | 5 Mun | Is | Wedi parcio mewn cilfach barcio i drigolion neu gilfach barcio rhannu defnydd gan arddangos trwydded barcio nad yw'n ddilys neu docyn talu ac arddangos nad yw'n ddilys. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. Arsylwi am 5 munud o ran llwytho cerbyd. | Edrych ar y dyddiadau dod i ben ar drwyddedau parcio a arddangosir. Gwirio a rhoi gwybod am achosion lle'r amheuir twyll neu gamddefnyddio trwydded. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 20 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn rhan o le parcio a farciwyd gan y llinell felen lle gwaherddir aros | Tystiolaeth o farciau. | Dim ystyriaethau arbennig. |
| 21 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn cilfach neu ran o gilfach sydd wedi'i hatal. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Dim angen arsylwi i weld a yw'n llwytho. Gwiriwch fod y gilfach wedi cael ei hatal. | Llwytho DDIM yn cael ei ganiatáu. Rhoi HTC ar unwaith. |
| 22 | 5 Mun | Is | Wedi ailbarcio yn yr un man parcio o fewn y cyfnod penodedig peidio â dychwelyd. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. Arsylwi am 5 munud o ran llwytho cerbyd. Sylwi ar safle'r falfiau a nod cofrestru cerbyd. | Y tramgwydd wedi'i gyfyngu i le parcio penodol. |
| 23 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn lle parcio neu ardal na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | Dim ystyriaethau arbennig. |
| 25 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn man llwytho o fewn oriau cyfyngedig heb lwytho. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. Arsylwi am 5 munud o ran llwytho cerbyd. Gwirio a yw'r lle wedi'i gyfyngu i gerbydau masnachol ynteu unrhyw lwytho. | Rhaid i'r man llwytho fod wedi cael ei farcio'n gywir ac nad oes bwlch llwytho lle mae 20 yn gymwys. |
| 30 | 5 Mun | Is | Wedi parcio mewn cilfach barcio rad ac am ddim am fwy na'r cyfnod hiraf. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. Arsylwi am 5 munud o ran llwytho cerbyd. Sylwi ar safle'r falfiau a nod cofrestru cerbyd. | Dim ystyriaethau arbennig. |
| 31J | 0 Mun | Uwch | Mynd i mewn a stopio mewn cyffordd blwch pan fydd wedi'i wahardd (gorfodi camera). | Tystiolaeth o farciau. | Dim ystyriaethau arbennig. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 34J | 0 Mun | Uwch | Bod mewn lôn fysiau (gorfodaeth camera). | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | Dim ystyriaethau arbennig. |
| 40 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn lle parcio dynodedig i berson anabl heb arddangos bathodyn person anabl dilys yn glir. | Marciau ac arwyddion. Rhaid bod plât bathodyn oren/glas yn bresennol. Tystiolaeth o chwilio'r ffenestr flaen cyn rhoi HTC. Nodwch fanylion y tocynnau/ trwyddedau parcio sy'n cael eu harddangos (e.e. bathodynnau wedi dod i ben). | Arsylwi am 5 munud cyn rhoi HTC i brofi nad yw'n llwytho/dadlwytho. Rhoi hysbysiad rhybuddio os oedd y bathodyn wedi dod i ben lai na 14 diwrnod yn ôl. |
| 45 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio ar safle tacsis. | Marciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. Mae'r safle ar gyfer cerbydau 'Hacnai' yn unig. Ni chaiff cerbydau llog preifat (e.e. 'cabiau bychan') barcio yno. |
| 46 | 0 Mun | Uwch | Wedi stopio lle mae hynny wedi'i wahardd [llwybr coch neu glirffordd]. | Marciau ac arwyddion. Rhaid bod arwydd 'Clirffordd' yn bresennol. | HTC ar unwaith. Mae'r cyfyngiad wedi'i gyfyngu i'r lôn gerbydau yn unig. HTCau i gael eu rhoi am barcio gan ddeiliaid bathodyn anabl. |
| 47 | 0 Mun | Uwch | Wedi stopio ar arhosfan/safle bysiau cyfyngedig. | Marciau ac arwyddion. Rhaid bod arwydd clir 'Clirffordd Arhosfan Bysiau' ynghyd â llinell felen DDI-DOR. | HTC ar unwaith. Nid yw'r cyfyngiad yn berthnasol i arhosfan bysiau 'cwrteisi'. HTCau i gael eu rhoi am barcio gan ddeiliaid bathodyn anabl. |
| 48 | 0 Mun | Uwch | Wedi stopio mewn ardal gyfynedig y tu allan i ysgol, ysbty neu orsaf dân, yr heddlu neu ambiwlans pan wahardd | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. |
| 48J | 0 Mun | Uwch | Wedi stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol, | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ysbyty neu orsaf dân, heddlu neu ambiwlans pan gaiff ei wahardd (gorfodi camera). | | |
| 49 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar drac beics. | Marciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. Nid yw'r cyfyngiad yn berthnasol i lonydd beics. |
| 50J | 0 Mun | Uwch | Perfformio tro gwaharddedig (gorfodi camera). | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. |
| 53J | 5 Mun | Uwch | Methu â chydymffurfio â chyfyngiad ar gerbydau yn mynd i mewn i barth cerddwyr (gorfodaeth camera). | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | Cerbydau nwyddau yn llwytho a dadlwytho, arsylwi am 5 munud. |
| 61 | 0 Mun | Uwch | Cerbyd masnachol trwm wedi'i barcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar droedffordd, ymyl neu dir rhwng dwy lôn gerbydau. | Tystiolaeth o bwysau'r cerbyd (pwysau di-lwyth dros 7.5 tunnell fetrig). Arsylwi i brofi nad yw'n llwytho. | Deddfwriaeth sylfaenol genedlaethol – dim angen Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Caniateir llwytho os nad oes dewis arall. Os oes dewis arall a bod y modurwr yn gwrthod pan dynnir ef i'w sylw, nid yw'r eithriad llwytho yn sefyll a rhaid rhoi HTC. |
| **Tramgwyddau Oddi Ar y Stryd** | | | | | |
| **Cod** | **Amser Arsylwi** | **Lefel y Tramgwydd** | **Disgrifiad** | **Meini Prawf Tystiolaeth Arsylwi** | **Ystyriaethau Arbennig** |
| 63 | 0 Mun | Is | Wedi parcio gyda'r peiriant yn rhedeg lle mae hynny wedi'i wahardd. | Nodi dosbarth y cerbyd. Nodi pa mor hir mae'n rhedeg. Tystiolaeth glir o barcio yn hytrach na dim ond stopio. | Rhoi HTC os yw'r modurwr yn anwybyddu rhybudd am dramgwydd. |
| 70 | 5 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn man llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb esgus rhesymol | Tystiolaeth o arwyddion. Arsylwi i wrthbrofi llwytho. | Arsylwyd am 5 munud. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 74 | 0 Mun | Uwch | Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig nwyddau neu eu dangos i gael eu gwerthu pan fydd hynny wedi'i wahardd. | Tystiolaeth fod nwyddau yn cael eu gwerthu. | HTC ar unwaith. |
| 80 | 15 Mun | Is | Wedi parcio am fwy na'r cyfnod hiraf a ganiateir. | Tystiolaeth o gyfyngiad sydd wedi'i farcio'n glir. Arsylwi/tystiolaeth fod y cerbyd wedi dychwelyd cyn y cyfnod 'dim dychwelyd'. | Caniatáu 15 munud i fodurwyr ar gyfer gwahaniaeth amser rhwng yr hyn sydd ar y tocyn a'r hyn sydd ar y cyfrifiadur llaw. |
| 81 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn ardal gyfyngedig mewn maes parcio. | Tystiolaeth o gyfyngiad sydd wedi'i farcio'n glir. Gwnewch ddiagram. | HTC ar unwaith. |
| 82 | 15 Mun | Is | Wedi parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben. | Gwnewch nodyn o fanylion y tocyn, yn enwedig yr amser dod i ben. | Caniatáu 15 munud o'r amser dod i ben cyn rhoi HTC. |
| 83 | 5 Mun | Is | Wedi parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos dilys yn glir. | Tystiolaeth o chwilio'r ffenestr flaen a thu mewn y cerbyd cyn rhoi HTC. Nodwch fanylion y tocynnau/trwyddedau parcio sy'n cael eu harddangos, yn enwedig os ydynt wyneb i waered! | Caniatáu 5 munud i'r modurwr fynd i nôl newid/dychwelyd yn hwyr. |
| 84 | 0 Mun | Is | Wedi parcio gan wneud taliad ychwanegol i ymestyn yr arhosiad y tu hwnt i'r amser a brynwyd i ddechrau. | Arsylwi/tystiolaeth fod y cerbyd wedi dychwelyd cyn y cyfnod 'dim dychwelyd'. Sylwi ar safle'r falfiau. Nodwch fanylion y tocyn. | Dim HTC i gael ei roi cyn amser dod i ben y tocyn talu ac arddangos cychwynnol. HTC ar unwaith. |
| 85 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn cilfach barcio lle mae rhaid wrth drwydded barcio heb arddangos trwydded barcio ddilys. | Tystiolaeth fod yr amodau ynglŷn â thrwydded barcio yn cael eu dangos yn glir. Nodwch fanylion unrhyw drwyddedau parcio/tocynnau sy'n cael eu harddangos, os oes rhai. | Edrych ar y dyddiadau dod i ben ar drwyddedau parcio a arddangosir. Gwirio a rhoi gwybod am achosion lle'r amheuir twyll neu gamddefnyddio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | trwydded. HTC ar unwaith. |
| 86 | 0 Mun | Is | Wedi parcio y tu allan i farciau'r gilfach. | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. Diagram i ddangos safle'r cerbyd. | Dylai o leiaf un olwyn gyfan fod y tu allan i'r gilfach neu'r lle. [Lle mae cyfres o geir wedi stradlo marciau'r cilfachau ac nad yw'n bosibl dweud pa gerbyd a achosodd hynny gyntaf, peidiwch â gorfodi.] HTC ar unwaith. |
| 87 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn lle parcio i berson anabl heb arddangos bathodyn person anabl dilys yn glir. | Marciau ac arwyddion. Rhaid bod plât bathodyn oren/glas yn bresennol. Tystiolaeth o chwilio'r ffenestr flaen cyn rhoi HTC. Nodwch fanylion y tocynnau/trwyddedau parcio sy'n cael eu harddangos (e.e. bathodynnau wedi dod i ben). | HTC ar unwaith. Rhoi hysbysiad rhybuddio os oedd y bathodyn wedi dod i ben lai na 14 diwrnod yn ôl. |
| 89 | 0 Mun | Uwch | Mae'r cerbyd sydd wedi'i barcio'n drymach na'r uchafswm pwysau a/neu'n uwch na'r uchder a/neu'n hirach na'r hyd a ganiateir yn y fan hon. | Tystiolaeth o uchder a/neu bwysau | HTC ar unwaith. |
| 90 | 0 Mun | Is | Wedi ailbarcio o fewn y cyfnod penodedig peidio â dychwelyd ar ôl gadael cilfach neu le mewn maes parcio. | Tystiolaeth na symudodd y cerbyd am y cyfnod 'dim dychwelyd'. Sylwi ar safle'r falfiau. | HTC ar unwaith. |
| 91 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio mewn maes parcio neu le nad yw wedi'i ddynodi ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd | Tystiolaeth nad yw'r cerbyd yn y dosbarth a ganiateir. | HTC ar unwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 92 | 0 Mun | Uwch | Wedi parcio gan achosi rhwystr | Tystiolaeth o rwystr. Gwnewch ddiagram llawn. | Gallai'r tramgwydd hwn fod wedi'i gwmpasu yn 86 uchod. HTC ar unwaith. |
| 93 | 0 Mun | Is | Wedi parcio mewn maes parcio pan oedd ar gau. | Tystiolaeth o oriau'r maes parcio ac o'r amseroedd arsylwi. | HTC ar unwaith. |
| 95 | 5 Mun | Is | Wedi parcio mewn lle parcio ar gyfer ddiben, heblaw'r diben dynodedig as gyfer y lle parcio | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | Arsylwyd am 5 munud. |
| 99 | 0 Mun | Uwch | Wedi aros ar groesfan cerddwyr neu groesi ardal sydd wedi'i dynodi gan igam-ogam | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. |
| 99J | 0 Mun | Uwch | Wedi aros ar groesfan cerddwyr neu groesi ardal sydd wedi'i dynodi gan igam-ogam (gorfodi â chamera) | Tystiolaeth o farciau ac arwyddion. | HTC ar unwaith. |

**SEILIAU STATUDOL DROS GYFLWYNO SYLWADAU**
**(Deddf Rheoli Traffig 2004)**

**Nodyn pwysig:**

Er mai'r canlynol yw'r 9 Sail Statudol dros gyflwyno sylwadau, yn unol â chyfarwyddeb a roddwyd gan yr Ombwdsmon
Llywodraeth Leol, bydd ystyriaeth lawn a sylw'n cael eu rhoi i bob sylw a ddaw i law, pa un a ydynt yn dod o fewn y
disgrifiad o "Seiliau Statudol" ai peidio. Dyna pam y mae 10fed Sail, sy'n cwmpasu unrhyw wybodaeth arall yr hoffai'r
modurwr neu'r perchennog/ceidwad i'r Cyngor ei hystyried, wedi cael ei chynnwys.

| | **GELLIR DERBYN Y SYLWADAU** | **GELLIR GWRTHOD Y SYLWADAU** |
|---|---|---|
| **S1 Ni ddigwyddodd y tramgwydd:** | | |
| 1.1 lle mae'r modurwr yn honni ei fod ef/bod hi yn llwytho/dadlwytho | Lle mae gwaharddiad aros neu mewn cilfach sy'n cael ei rheoli: | ar farciau igam-ogam ger ysgolion |

| | | |
|---|---|---|
| | Os oes tystiolaeth ar gael neu'n cael ei darparu i ddangos:<br>1. Bod y nwyddau a oedd yn cael eu danfon neu eu casglu yn drwm, yn swmpus neu'n niferus ac y byddai'n afresymol disgwyl iddynt gael eu cario o'r lle parcio 'cyfreithiol'.<br>2. Roedd y gweithgaredd llwytho/ dadlwytho gerllaw'r eiddo dan sylw.<br>3. Roedd y gweithgareddau llwytho/ dadlwytho yn amserol (yn cynnwys gwirio'r nwyddau a'r gwaith papur, ond heb oedi a achoswyd gan weithgaredd digysylltiad). [Ffynhonnell – Gorchmynion Traffig, achosion y penderfynwyd arnynt e.e. Jane Packer Flowers]<br>Os yw yng nghwrs busnes, yn cynnwys danfon/casgliadau masnachol, couriers, cludwyr parseli aml-ollyngiad, gwasanaethau symud dodrefn ac ati. | ar glirffyrdd arosfannau bysiau<br><br>ar safleoedd Tacsis<br><br>ar gilfachau heddlu<br><br><u>lle mae llwytho wedi'i wahardd-</u><br><br>mewn meysydd parcio (ac eithrio rhoi defnyddiau mewn biniau ailgylchu)<br><br>Os na chafodd tocyn talu ac arddangos dilys ei brynu'n gyntaf<br><br>Cilfachau dynodedig i'r anabl<br><br>Cilfachau meddygon |
| S1.2 lle mae'r modurwr yn honni bod rhywbeth o'i le ar beiriant talu ar arddangos | Os yw'r cofnodion trin yn cadarnhau nam neu os nad oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio adeg y tramgwydd.<br>Os oes amheuaeth resymol gan nad oes tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod peiriant yn gweithio ar y pryd (tocyn profi) ac nad oedd peiriant tocynnau arall gerllaw a oedd yn gweithio'n iawn. | Os oedd peiriant tocynnau arall gerllaw a oedd yn gweithio'n iawn ar y pryd.<br>Os nad oes cofnod fod rhywbeth o'i le ar y peiriant neu nad oedd yn cael ei ddefnyddio.<br>Os oes amheuaeth resymol gan fod tystiolaeth yn cadarnhau bod ymwelwyr eraill wedi gallu prynu tocynnau yn ystod y cyfnod perthnasol. |
| S1.3 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd arwyddion neu farciau clir yn dynodi'r cyfyngiad | Os oes arwyddion a/neu farciau ar goll neu'n aneglur<br><br>Os yw'r arwyddion a'r marciau'n anghyson â'i gilydd a/neu â Gorchymyn Traffig neu ddeddfwriaeth | Os oes cofnodion am ymweliadau safle neu ffotograffau yn sefydlu bod yr arwyddion a/neu'r marciau yn gywir ac yn gyson â'i gilydd ac â'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. |
| S1.4 lle'r oedd y modurwr yn gwneud gwaith adeiladu | Os oes tystiolaeth yn cadarnhau nad oedd y modurwr ond yn llwytho/dadlwytho<br>(gweler polisi S1.1, uchod)<br><br>Os oedd hawl arbennig wedi cael ei rhoi i barcio yn y lle dan sylw a'i bod wedi'i harddangos yn y cerbyd. | Dan bob amgylchiad arall. |

| | | |
|---|---|---|
| | Os yw'r gwaith o natur statudol neu os yw'n cael ei eithrio rhag cyfyngiadau Gorchymyn Traffig neu ddeddfwriaeth.<br><br>Os gellir profi bod y gwaith yn waith brys. | |
| S1.5 lle mae'r modurwr yn honni na chafodd HTC ei gyflwyno | Dim tystiolaeth yn llyfr poced y Swyddog Gorfodi Sifil na chafodd yr HTC ei gyflwyno'n gywir h.y. na chafodd HTC ei roi i'r gyrrwr neu ei roi ynghlwm wrth y cerbyd. | Os yw nodiadau neu ffotograffau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau bod HTC wedi cael ei gyflwyno'n gywir, h.y. wedi cael ei roi i'r gyrrwr neu ei roi ynghlwm wrth y cerbyd. |
| S1.6 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd ei gerbyd wedi cael ei barcio yn y lleoliad hwnnw ar yr amser a'r dyddiad a honnir ar yr HTC a gyflwynwyd | Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael:<br><br>Os yw'r modurwr yn darparu copi o'i drwydded treth cerbyd (disg treth), a oedd yn ddilys adeg y tramgwydd, a bod y rhif cyfresol arno'n wahanol i'r rhif a nodwyd gan y Swyddog Gorfodi Sifil. | Os nad yw'r modurwr yn darparu copi<br>o'i ddisg treth, ar ôl cael cyfle pellach i<br>gyflwyno copi o'r<br>fath Neu<br>Os yw'r rhif cyfresol ar y copi o'r disg treth a ddarperir gan y modurwr yn cyfateb yn union i'r rhif cyfresol a nodwyd gan y Swyddog Gorfodi Sifil<br>Neu<br>Os nad oes unrhyw dystiolaeth neu os nad yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn cefnogi'r honiad neu os yw'n amhendant. |
| S1.7 lle mae'r modurwr yn honni bod caniatâd ysgrifenedig dilys i barcio wedi cael ei roi | Os yw'r cofnodion yn dangos bod gan y modurwr ganiatâd ysgrifenedig dilys i barcio. | Os nad yw'r modurwr yn gallu darparu copi o'r caniatâd ysgrifenedig dilys i barcio neu os nad oes cofnod bod caniatáu o'r fath wedi cael ei roi.<br>Os nad oedd y modurwr wedi parcio yn unol â'r caniatâd. |
| S1.8 lle mae'r modurwr yn honni bod tocyn talu ac arddangos wedi cael ei brynu a'i arddangos | Os yw'r modurwr yn darparu tocyn parcio Talu ac Arddangos a oedd yn ddilys ar yr adeg y cyflwynwyd yr Hysbysiad Tâl Cosb **a bod y Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau ei fod wedi gweld tocyn â'i wyneb i waered neu docyn a oedd wedi'i arddangos ond nad oedd modd ei weld mewn rhyw ffordd** ac mai dyma'r <u>tramgwydd cyntaf o'r math hwn.</u> | Os nad yw'r modurwr yn gallu darparu tocyn talu ac arddangos dilys **Nid oedd y Swyddog Gorfodi Sifil yn gallu cadarnhau ei fod wedi gweld tocyn â'i wyneb i waered neu docyn a oedd wedi'i arddangos ond nad oedd modd ei weld mewn rhyw ffordd**<br>Mae'r modurwr wedi cyflwyno sylwadau tebyg o'r blaen ac mae HTC blaenorol wedi cael ei ganslo, ar ôl cytuno i dderbyn ei air; neu nododd y Swyddog Gorfodi Sifil fod y modurwr wedi cael ei docyn oddi wrth fodurwr |

| | | |
|---|---|---|
| | | arall yn y maes parcio; neu lle mae rhifau wedi cael eu nodi ar wyneb y tocyn ac nad ydynt yn cyfateb i rif cofrestru cerbyd y modurwr, ar yr amod fod rhywfaint o lwfans yn cael ei ganiatáu ar gyfer camgymeriadau. |
| S1.9 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd yn ymwybodol o'r tramgwydd nes i'r HTC gael ei gyflwyno iddo drwy'r post | Os gall y modurwr brofi nad oedd y Swyddog Gorfodi Sifil ond newydd ddechrau/nad oedd wedi dechrau ar y broses o ysgrifennu/cofnodi'r wybodaeth am y cerbyd ac ati ar yr HTC neu ar y peiriant tocynnau llaw. | Os yw'r nodiadau yn llyfr poced y Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau ei fod ef/bod hi yn y broses o orffen/wedi gorffen paratoi'r HTC a bod holl fanylion y cerbyd wedi cael eu cofnodi, ond iddo gael ei atal rhag cyflwyno'r HTC gan fod y cerbyd wedi cael ei yrru ymaith. |
| **S2 Roedd y gosb yn fwy na'r swm perthnasol** | | |
| S2 Roedd y gosb yn fwy na'r swm perthnasol | Os oedd yr HTC a/neu'r Hysbysiad i'r Perchennog yn dangos y swm anghywir o dâl cosb, h.y. y band tâl cosb anghywir. | Os oedd yr HTC neu'r Hysbysiad i'r<br>Perchennog yn dangos y swm cywir o dâl cosb. |
| **S3 Nid oedd y Gorchymyn Traffig yn ddilys** | | |
| S3 Nid oedd y Gorchymyn Traffig yn ddilys | Os oedd y Gorchymyn Rheoleiddio<br>Traffig sy'n pennu'r cyfyngiadau a dorrwyd wrth barcio'r cerbyd un ai heb gael ei lunio'n gywir, h.y. ei fod ultra vires, neu nad oedd wedi cael ei wneud yn gywir, h.y. nad ymgynghorwyd yn ei gylch yn gywir. | Os oedd y Gorchymyn Rheoleiddio<br>Traffig sy'n pennu'r cyfyngiadau a dorrwyd wrth barcio'r cerbyd wedi cael ei lunio a'i wneud yn gywir.<br><br>Os mai'r unig gyfiawnhad yw bod y modurwr yn credu bod y cyfyngiadau yn annheg. |
| **S4 Nid y modurwr oedd perchennog/ceidwad y cerbyd adeg y tramgwydd** | | |
| 4.1 lle mae'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn honni ei fod wedi gwaredu'r cerbyd cyn i'r tramgwydd ddigwydd | Os yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu darparu prawf fod y cerbyd wedi cael ei waredu cyn y tramgwydd, h.y. bil gwerthiant, dogfennau cofrestru, dogfennau yswiriant neu lythyr oddi wrth DVLA; a/neu Os yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu darparu enw llawn a chyfeiriad y sawl y gwaredodd y cerbyd iddo.<br><br>GWEITHREDU – anfon Hysbysiad i'r Perchennog at y sawl a enwyd gan y ceidwad cofrestredig cyfredol. | Os nad yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu profi bod y cerbyd wedi cael ei waredu cyn y tramgwydd na darparu enw a chyfeiriad y sawl y gwaredwyd y cerbyd iddo.<br>Os yw'r sawl a enwyd gan y ceidwad cofrestredig cyfredol fel y sawl y gwaredwyd y cerbyd iddo un ai ddim yn bodoli, neu na ellir ei olrhain, neu nad yw am ryw reswm arall yn cael ei ystyried yn bona fide. |

| | | |
|---|---|---|
| S4.2 lle mae'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn honni iddo brynu'r cerbyd ar ôl i'r tramgwydd ddigwydd | Os yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu darparu prawf fod y cerbyd wedi cael ei brynu ar ôl y tramgwydd, h.y. anfoneb, dogfennau cofrestru, dogfennau yswiriant neu lythyr oddi wrth DVLA; a/neu<br>Os yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu darparu enw llawn a chyfeiriad y sawl y prynodd y cerbyd oddi wrtho.<br><br>GWEITHREDU – anfon Hysbysiad i'r Perchennog at y sawl a enwyd gan y ceidwad cofrestredig cyfredol. | Os nad yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu profi bod y cerbyd wedi cael ei brynu ar ôl y tramgwydd na darparu enw a chyfeiriad y sawl y prynodd y cerbyd oddi wrtho.<br>Os yw'r sawl a enwyd gan y ceidwad cofrestredig cyfredol fel y sawl y gwaredwyd y cerbyd iddo un ai ddim yn bodoli, neu na ellir ei olrhain, neu nad yw am ryw reswm arall yn cael ei ystyried yn bona fide. |
| S4.3 lle mae'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn honni mai trydydd parti dan gontract oedd yn gyfrifol am y cerbyd adeg y tramgwydd | Dim ond lle mae cytundeb llogi yn bodoli (gweler polisi S6, isod)<br><br>GWEITHREDU – anfon Hysbysiad i'r Perchennog at y sawl a enwyd fel y ceidwad cofrestredig cyfredol. | Dan bob amgylchiad arall gan mai'r ceidwad cofrestredig sy'n atebol bob amser, yn cynnwys lle bo'r cerbyd wedi cael ei adael yng ngofal modurdy. |
| S4.4 lle mae'r modurwr yn honni nad yw erioed wedi bod yn berchen ar y cerbyd | Os yw DVLA yn cadarnhau nad y modurwr oedd y ceidwad cofrestredig adeg y tramgwydd.<br><br>GWEITHREDU – anfon Hysbysiad i'r Perchennog at y sawl a enwyd fel y ceidwad cofrestredig cyfredol. | Os yw DVLA yn cadarnhau mai'r modurwr oedd ceidwad cofrestredig y cerbyd adeg y tramgwydd.<br><br>Os bydd y ceidwad cofrestredig blaenorol yn darparu prawf fod y modurwr wedi prynu'r cerbyd cyn y tramgwydd, neu os bydd y ceidwad cofrestredig dilynol yn darparu prawf fod y modurwr wedi gwerthu'r cerbyd ar ôl y tramgwydd.<br><br>Os profir bod y modurwr wedi llogi'r cerbyd am y diwrnod y digwyddodd y tramgwydd arno a'i fod wedi llofnodi cytundeb i gymryd cyfrifoldeb am HTCau a fyddai'n codi, yn dibynnu ar yr amser llogi (gweler polisi S6, isod) |
| **S5 Roedd y cerbyd wedi cael ei gymryd heb ganiatâd y perchennog** | | |
| S5.1 lle mae'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn honni bod y cerbyd wedi cael ei ddwyn | Os yw'r ceidwad cofrestredig yn darparu cyfeirnod heddlu dilys rhoi gwybod am drosedd. | Os nad yw'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn gallu darparu prawf o ddwyn<br>Os nad yw'r cyfeirnod heddlu rhoi gwybod am drosedd a ddarperir gan y ceidwad |

| | | |
|---|---|---|
| | | cofrestredig cyfredol yn bodoli neu os nad yw'n cyd-fynd â'r lladrad neu'r dyddiad dwyn a honnir. |
| S5.2 lle mae'r ceidwad cofrestredig cyfredol yn honni bod y cerbyd wedi cael ei yrru gan drydydd parti (h.y. ffrind, perthynas neu gymar sydd wedi ymddieithrio) | Ddim o dan unrhyw amgylchiadau. | Ym mhob amgylchiad oherwydd y ceidwad cofrestredig sy'n atebol bob amser, ac eithrio lle mae cytundeb llogi yn bodoli (gweler polisi S6, isod). |
| **S6 Cwmni llogi yw'r perchennog ac mae wedi darparu enw'r llogwr** | | |
| S6 cwmni llogi yw'r perchennog ac mae wedi darparu enw'r llogwr | Os yw'r cwmni llogi'n gallu darparu prawf fod y cerbyd wedi cael ei logi adeg y tramgwydd, h.y. cytundeb wedi'i lofnodi<br>Os yw'r cwmni llogi'n gallu darparu enw llawn a chyfeiriad y sawl y llogwyd y cerbyd iddo<br><br>GWEITHREDU – anfon Hysbysiad i'r Perchennog at y sawl a enwyd gan y cwmni llogi. | Os nad yw'r cwmni llogi'n gallu profi ei fod wedi llogi'r cerbyd ar ddyddiad y tramgwydd na darparu enw a chyfeiriad y sawl y llogwyd y cerbyd iddo.<br>Os yw'r sawl a enwyd gan y cwmni llogi, heb brawf, fel y person y llogwyd y cerbyd iddo, un ai ddim yn bodoli, na ellir ei olrhain neu ei fod yn gwadu cyfrifoldeb am y tramgwydd.<br>Os oedd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel car cwrteisi heb gytundeb wedi'i lofnodi i dderbyn cyfrifoldeb am Hysbysiadau Tâl Cosb a gâi eu cyflwyno. |
| **S7 Ni chafodd y Swyddog Gorfodi Sifil ei rwystro rhag cyflwyno'r Hysbysiad Tâl Cosb** | | |
| S7 Ni chafodd y Swyddog Gorfodi Sifil ei rwystro rhag cyflwyno'r Hysbysiad Tâl Cosb | Os gall y modurwr brofi na chafodd y Swyddog Gorfodi Sifil ei rwystro rhag cyflwyno'r HTC ac nad oedd ond newydd ddechrau/nad oedd wedi dechrau ar y broses o ysgrifennu/cofnodi'r wybodaeth am y cerbyd ac ati ar yr HTC neu ar y peiriant tocynnau llaw. | Os yw'r nodiadau yn llyfr poced y Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau ei fod ef/bod hi yn y broses o orffen/wedi gorffen paratoi'r HTC a bod holl fanylion y cerbyd wedi cael eu cofnodi, ond iddo gael ei atal rhag cyflwyno'r HTC gan fod y cerbyd wedi cael ei yrru ymaith. |
| **S8 Bu amhriodoldeb o ran gweithdrefn ar ran yr awdurdod** | | |
| S8 Bu amhriodoldeb o ran gweithdrefn ar ran yr awdurdod | Methiant gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gadw at unrhyw ofyniad a roddir arno gan y Ddeddf Rheoli Traffig neu gan reoliadau'r Ddeddf mewn cysylltiad â gosod neu gasglu Hysbysiad Tâl Cosb. | Os yw'r gweithdrefnau cywir wedi cael eu gweithredu a'u cynnal gan y Cyngor Sir. |
| **S9 Talwyd yr Hysbysiad Tâl Cosb, un ai'n llawn neu ar ddisgownt, o fewn y** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **cyfnod disgownt** | | |
| S9 Talwyd yr Hysbysiad Tâl Cosb, un ai'n llawn neu ar ddisgownt, o fewn y cyfnod disgownt | Os yw'r cofnodion yn dangos bod taliad wedi dod i law Cyngor Sir Caerfyrddin, un ai'n llawn neu ar ddisgownt. | Na chanfyddir cofnod am unrhyw daliad. |
| **S10 Unrhyw wybodaeth arall y mae'r modurwr / perchennog y cerbyd am i'r Cyngor ei hystyried** | | |
| S10 Unrhyw wybodaeth arall y mae'r modurwr / perchennog y cerbyd am i'r Cyngor ei hystyried | Dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus iawn, ar ôl rhoi sylw i'r holl dystiolaeth sydd ar gael, y penderfynir pa un a ddylai'r Hysbysiad Tâl Cosb gael ei ganslo ai peidio. | |

## AMGYLCHIADAU LLINIARU

| | **GELLIR DERBYN Y SYLWADAU** | **GELLIR GWRTHOD Y SYLWADAU** |
|---|---|---|
| **MC1 lle mae'r modurwr yn honni ei fod wedi mynd yn sâl tra oedd yn gyrru** | Os bydd y modurwr yn darparu prawf o gyflwr meddygol, dros dro neu barhaol, sy'n gyson â'r amodau a ddisgrifiwyd.<br><br>Pan fydd y nodiadau a wnaed gan y Warden Parcio yn ategu sylwadau'r modurwr. | Os na all y modurwr ddarparu rhyw brawf o gyflwr meddygol, dros dro neu barhaol, sy'n gyson â'r amodau a ddisgrifiwyd.<br><br>Neu<br><br>Lle mae tystiolaeth arall yn gwrthddweud honiadau'r gyrrwr. |
| **MC2 lle mae'r modurwr yn honni ei fod yn feddyg, nyrs, ymwelydd iechyd yn mynd i weld claf** | Os yw'r modurwr dan sylw yn meddu ar Fathodyn Hawl Feddygol (BMA, HEBS) y mae'r Cyngor dan sylw yn ei gydnabod a'i gymeradwyo a/neu ei fod yn cael ei eithrio o dan y Gorchymyn perthnasol.<br><br>Neu<br><br>Os bydd y modurwr yn darparu tystiolaeth ei fod yn ymateb i alwad feddygol frys. | Os nad oedd y modurwr yn mynd i weld claf o dan amgylchiadau brys neu os oedd llefydd parcio cyfreithiol gerllaw.<br><br>Os oedd y modurwr wedi parcio y tu allan i'w bractis neu fan gwaith arall am unrhyw reswm ar wahân i gasglu cyflenwadau ar gyfer galwad frys.<br><br>Os oedd y modurwr wedi parcio mewn ardal nad yw'n cyfateb i'r honiadau a wnaed yn y sylwadau, h.y. ymhell o eiddo'r claf, dyweder, mewn maes parcio. |
| **MC3 lle stopiodd y modurwr i ddefnyddio'r toiled** | Os cynhyrchir tystiolaeth feddygol yn cadarnhau cyflwr meddygol perthnasol ac yn | Dan bob amgylchiad arall. |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | |
|---|---|---|
| | ategu'r amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn y sylwadau. | |
| **MC4 lle stopiodd y modurwr i gasglu meddyginiaeth (ar bresgripsiwn) o fferyllfa** | Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol, brys ac eithriadol ac y byddai defnyddio lle parcio 'cyfreithiol' wedi achosi oedi annerbyniol. | Dan unrhyw amgylchiadau llai. |
| **MC5 lle'r oedd y modurwr yn glaf yn ymweld â meddygfa** | Os gall y modurwr ddarparu llythyr gan feddyg i gadarnhau bod yr ymweliad yn un lle'r oedd brys mawr ac na allai gerdded o'r lle parcio cyfreithiol agosaf. | Os nad y modurwr oedd y claf ac nad oedd ond yn gyrru'r cerbyd oedd yn cario'r claf<br><br>Os oedd y modurwr yn cadw apwyntiad a oedd wedi'i drefnu ymlaen llaw, nad oedd yn un brys.<br><br>Pe gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl i'r modurwr barcio'n gyfreithiol yn rhywle arall. |
| **MC6 lle mae'r modurwr yn honni ei fod wedi cael profedigaeth yn ddiweddar** | Os nad oes tystiolaeth i'r gwrthwyneb yn bodoli, gan ystyried sensitifrwydd y mater hwn <u>ar yr achlysur cyntaf</u>. | Dim ond os oes rheswm sylweddol i amau didwylledd y sylwadau, h.y. bod nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn dangos bod y modurwr yn bwrw ymlaen â diwrnod arferol, dyweder, yn siopa neu'n gweithio, neu y tybir bod y brofedigaeth wedi digwydd gryn amser yn ôl. |
| **MC7 lle cafodd y modurwr ei ddal yn ôl cyn dychwelyd at ei gerbyd a bod yr amser parcio a brynwyd wedi dod i ben** | Os oes tystiolaeth briodol i ategu hynny, bod sylwadau'r modurwr yn honni i'r oedi cyn dychwelyd at y cerbyd gael ei achosi gan amgylchiadau na ellid bod wedi eu rhagweld na'u hosgoi o gwbl, a'u bod yn gwbl eithriadol.<br><br>Os oedd cerbyd y modurwr wedi torri i lawr, yn amodol ar gyd-fynd â pholisi MC25, isod.<br><br>Os nad oedd y modurwr yn gallu gyrru, ers parcio'r cerbyd. | Os oedd yr oedi a ddisgrifiwyd gan y modurwr yn un y gellid bod wedi ei osgoi'n llwyr, h.y. ciwio mewn siop.<br><br>Os mai'r modurwr oedd wedi tanamcangyfrif faint o amser oedd yn ofynnol ac y gallai'n rhesymol fod wedi prynu mwy o amser, h.y. wrth gynnal busnes, siopa neu gymudo.<br><br>Os nad oedd y modurwr yn gallu gyrru ers parcio oherwydd gormod o alcohol yn y corff neu ei fod wedi cael ei gadw neu ei gyhuddo gan yr heddlu. |
| **MC8 lle'r oedd y modurwr wedi "bwydo" mesurydd neu beiriant talu ac arddangos drwy brynu amser ychwanegol i barcio yn yr un man neu wedi dychwelyd i'r un man o fewn** | Ddim o dan unrhyw amgylchiadau. | Os yw'r modurwr yn aros y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o amser a brynwyd neu'n dychwelyd o fewn y cyfnod 'Dim dychwelyd'. |

| | | |
|---|---|---|
| **cyfnod penodedig a gwaharddedig** | | |
| **MC9 lle gadawodd y modurwr y cerbyd wedi'i barcio heb docyn dilys wedi'i arddangos i fynd i nôl newid** | Os nad oedd y modurwr wedi gadael y maes parcio, neu'r ardal talu ac arddangos ar-y-stryd, tra oedd yn mynd i nôl newid ac yn prynu tocyn. | Os yw nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn dangos bod y modurwr wedi dychwelyd at ei gerbyd, wedi cwblhau ei reswm dros barcio, tra oedd yr HTC yn cael ei roi, h.y. yn cario nwyddau siopa, neu ei fod wedi gadael y cerbyd yn y maes parcio, neu mewn ardal talu ac arddangos ar-y-stryd, tra oedd yn mynd i nôl newid. |
| **MC10 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd yn ymwybodol o'r taliadau neu o'r cyfyngiad yn y maes parcio ynglŷn â dosbarth neu bwysau'r cerbyd.** | Os oes cyfeiriad at gyfyngiadau ar y bwrdd/byrddau tariffau yn anghywir neu ar goll. | Dan bob amgylchiad arall. |
| **MC11 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd yn ymwybodol fod y tariff wedi codi'n ddiweddar** | Os na chodwyd hysbysiadau statudol yn unol â'r rheoliadau gweithdrefnol.<br><br>Os nad yw'r tariff diwygiedig ar y bwrdd/byrddau tariffau. | Os codwyd hysbysiadau statudol yn unol â'r rheoliadau gweithdrefnol a bod y bwrdd/byrddau tariffau yn gywir. |
| **MC12 lle'r oedd y modurwr wedi parcio gydag un olwyn neu fwy y tu allan i gilfach a oedd wedi'i marcio mewn maes parcio** | Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol a oedd y tu hwnt i reolaeth y modurwr a bod tystiolaeth ddiymwad yn ategu hynny.<br><br>Fel arall<br><br>Ddim o dan unrhyw amgylchiadau. | Pan fydd tystiolaeth ategu glir a diymwad (ffotograffau/braslun cynllunio) ar gael. |
| **MC13 lle mae'r modurwr yn ddeiliad Bathodyn Glas/yn cludo deiliad Bathodyn Glas ac nad oedd y Bathodyn Glas a/neu'r cloc wedi cael eu harddangos neu nad oedd modd eu darllen neu eu bod wedi dod i ben** | Os gellir sefydlu mai dyma'r tramgwydd cyntaf o'r math hwn gan y modurwr a'i fod yn gallu darparu tystiolaeth ei fod yn ddeiliad Bathodyn Glas neu ei fod yn cludo deiliad Bathodyn Glas. | Os yw'r modurwr wedi cael HTC wedi'i ganslo o'r blaen am yr un tramgwydd a'i fod wedi cael rhybudd i arddangos bathodyn/cloc amser dilys yn gywir yn y dyfodol.<br><br>Os oedd y modurwr wedi parcio ar gyfyngiad aros y tu hwnt i'r terfyn amser 3 awr a ganiateir gan y Cynllun Bathodyn Glas, neu ar gyfyngiad arall lle nad yw'r Bathodyn Glas yn esgusodi modurwyr rhag y gofynion. |
| **MC14 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd yn ymwybodol o fodolaeth parth** | Os gellir sefydlu bod yr arwyddion a'r marciau ar y parth | Dan bob amgylchiad arall. |

| | | |
|---|---|---|
| **parcio o dan reolaeth** | parcio o dan reolaeth ar fai, gweler polisi S1.3, uchod. | |
| **MC15 lle'r oedd y modurwr yn arddangos caniatâd i barcio a oedd wedi dod i ben h.y. hawl arbennig, ataliad ar y lle parcio, tocyn tymor, trwydded barcio i drigolion, trwydded parcio busnes neu drwydded barcio i ymwelwyr** | Os oedd prosesau gweinyddol y Cyngor wedi achosi oedi cyn adnewyddu'r caniatâd.<br><br>Os gellir sefydlu bod amgylchiadau eraill na ellid o fewn rheswm fod wedi eu rhagweld wedi achosi oedi cyn adnewyddu'r caniatâd i barcio, e.e. salwch ar ran yr ymgeisydd neu anghydfod/oedi gyda'r post (i'w ategu â thystiolaeth briodol).<br><br>Yn achos tocynnau tymor a thrwyddedau parcio trigolion / busnesau yn unig, os yw'r caniatâd wedi dod i ben o lai na 7 diwrnod. | Dan bob amgylchiad arall. |
| **MC16 lle mae'r modurwr wedi parcio yn groes i waharddiad aros/parcio tra oedd yn arddangos trwydded barcio i ymwelydd trigolion.** | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. | Ar bob achlysur. |
| **MC17 lle mae'r modurwr yn breswyliwr newydd o fewn parth parcio trigolion a'i fod wedi parcio mewn cilfach trigolion heb arddangos trwydded barcio preswyliwr ddilys** | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. | Ar bob achlysur. |
| **MC18 lle'r oedd y modurwr wedi parcio'n anghywir mewn cilfach dan reolaeth ar-y-stryd** | Os gellir sefydlu bod y modurwr wrthi'n llwytho neu'n dadlwytho, yn amodol ar gydymffurfio â pholisi S1.1, uchod. | Ar bob achlysur. |
| **MC19 lle'r oedd y modurwr wedi tybio bod ganddo hawl i "gyfnod o ras" cyn i'r HTC gael ei roi** | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. | Dan bob amgylchiad. |
| **MC20 lle mae'r modurwr yn honni bod eira, deiliach, dail wedi disgyn neu lifogydd wedi gorchuddio'r arwyddion neu'r marciau** | Os gellir sefydlu mai felly yr oedd hi a'i bod yn debygol fod arwyddion a marciau wedi cael eu cuddio fel yr honnwyd ac nad oedd arwyddion eraill i ddynodi'r cyfyngiad. | Os gellir sefydlu nad oedd amodau o'r fath wedi achosi i'r llinellau a'r arwyddion gael eu cuddio fel yr honnwyd.<br><br>Os yw nodiadau, tystiolaeth ffotograffig ac ati y Swyddog Gorfodi |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sifil yn gwrth-ddweud fersiwn y modurwr o'r digwyddiadau yn uniongyrchol.<br>Os oedd unrhyw arwydd arall rhesymol o'r cyfyngiad ar gael i'r modurwr.<br><br>Os oedd lleoliad y tramgwydd yn annhebygol o fod yn ddarostyngedig i'r amodau naturiol a ddisgrifiwyd gan y modurwr, h.y. ei fod wedi'i orchuddio. |
| **MC21 lle mae'r modurwr yn honni bod<br>ei gerbyd wedi torri i lawr** | Os yw'r modurwr yn gallu darparu tystiolaeth fod y cerbyd wedi torri i lawr, h.y. prawf o gludo'r cerbyd i fordurdy neu fil gwerthiant am waith trwsio neu rannau. | Os nad yw'r modurwr yn gallu darparu tystiolaeth o unrhyw fath fod ei gerbyd wedi torri i lawr.<br><br>Os mai esgeulustod ar ran y modurwr oedd wedi achosi i'r cerbyd "dorri i lawr", h.y. nad oedd y cerbyd wedi cael ei gynnal a'i gadw yn iawn, ei fod wedi rhedeg allan o betrol neu ddŵr neu reswm arall tebyg.<br><br>Os yw nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn gwrth-ddweud fersiwn y modurwr o'r hyn a ddigwyddodd. |
| **MC22 lle mae'r modurwr yn honni ei fod yn ateb argyfwng neu'n rhoi sylw i gerbyd arall a oedd wedi torri i lawr** | Os yw'r modurwr yn gallu darparu prawf rhesymol o'r argyfwng, h.y. adroddiad credadwy am ddamwain neu ddigwyddiad, neu ei fod yn rhoi sylw i gerbyd arall a oedd wedi torri i lawr. | Os nad yw'r modurwr yn gallu darparu tystiolaeth o unrhyw fath ei fod yn ateb argyfwng neu'n rhoi sylw i gerbyd arall a oedd wedi torri i lawr.<br><br>Os yw nodiadau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn gwrth-ddweud fersiwn y modurwr o'r hyn a ddigwyddodd, h.y. na welwyd y modurwr yn ateb argyfwng nac yn rhoi sylw i gerbyd arall a oedd wedi torri i lawr. |
| **MC23 lle mae'r modurwr yn honni ei fod wedi rhoi arian yn y peiriant tocynnau anghywir** | Os cytunir bod lleoliad y peiriant tocynnau a ddefnyddiwyd gan y modurwr yn debygol o achosi dryswch. | Os yw'r peiriant tocynnau a ddefnyddiwyd gan y modurwr wedi'i leoli mewn man lle nad yw dryswch yn debygol.<br><br>Os oes sylwadau gan y modurwr am dramgwydd tebyg wedi cael eu derbyn o'r blaen. |
| **MC24 lle'r oedd y cerbyd dan sylw ar ddyletswydd ar ran yr heddlu, y frigâd  dân neu'r ambiwlans** | Os bydd uwch swyddog o'r gwasanaeth dan sylw yn cefnogi'r sylwadau ac nad oes rheswm i amau bod y cerbyd yn | Dan bob amgylchiad arall. |

| | | |
|---|---|---|
| | ymgymryd â gweithgareddau gweithredol. | |
| **MC25 lle mae'r modurwr yn honni ei fod yn casglu arian o'r banc neu'n talu arian i mewn** | Os yw'r weithdrefn a eglurwyd yn sylwadau'r modurwr yn gyson â'r lwfans ar gyfer llwytho a dadlwytho, gweler Polisi S1.1, uchod.<br><br>Neu<br><br>Os cytunwyd ar drefniadau penodol. | Dan bob amgylchiad arall. |
| **MC26 lle mae'r modurwr yn honni nad oedd yn ymwybodol o waharddiad parcio dros dro neu o gyfyngiad oherwydd digwyddiad arbennig** | Os yw'r modurwr yn honni nad oedd unrhyw arwydd o'r cyfyngiad, ac nad yw nodiadau/ffotograffau'r Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau bod arwyddion priodol yn eu lle.<br><br>Os oedd y broses a ddilynwyd i wneud y gorchymyn dros dro yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd. | Os yw nodiadau/ffotograffau y Swyddog Gorfodi Sifil yn cadarnhau bod y cerbyd wedi cael ei barcio mewn ardal y cyfyngwyd arni gan y Gorchymyn neu'r Hysbysiad Dros Dro, a bod arwyddion priodol yn eu lle ac i'w gweld yn glir. |
| **MC27 lle mae disgwyl i'r ceidwad cofrestredig sy'n atebol am dalu'r HTC fod yn absennol am gyfnod hir o amser,**<br>**e.e. ei fod yn byw dramor neu ei fod yn y carchar** | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. | Ar bob achlysur. |
| **MC28 lle dywedir bod y ceidwad cofrestredig sy'n atebol am dalu'r HTC wedi marw** | Lle gellir cadarnhau'r amgylchiadau (drwy ymholiadau sensitif). | Dim ond os oes tystiolaeth sylweddol i amau didwylledd y sylwadau. |
| **MC29 lle mae'r cerbyd a oedd yn cael ei yrru gan y modurwr wedi cael ei**<br>**gofrestru'n gerbyd diplomyddol** | Dan bob amgylchiad. Ni ddylai Hysbysiad i'r Perchennog fyth gael ei anfon at ddeiliad cerbyd sydd wedi cael ei gofrestru'n gerbyd diplomyddol. Dylai Cyngor Sir Caerfyrddin gael ei hysbysu o bob tâl cosb nas cesglir oddi wrth ddeiliaid cerbydau sydd wedi cael eu cofrestru'n rhai diplomyddol. Bydd yn trosglwyddo gwybodaeth am y dyledion hyn i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad [Ffynhonnell – Canllawiau Rheoli Traffig a Pharcio yr<br>Ysgrifennydd Gwladol, Confensiwn | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | |
|---|---|---|
| | Vienna ar Gysylltiadau Diplomyddol,<br>Deddf Breintiau Diplomyddol 1964 ac Adroddiad y Llywodraeth ar yr Adolygiad o Gonfensiwn Vienna…] | |
| **MC30 lle cafodd y modurwr Hysbysiad Cosb Benodedig gan swyddog heddlu** | I osgoi 'erlyniad dwbl', os ceir cadarnhad gan yr heddlu fod achos yn | Dan bob amgylchiad arall. |
| **neu warden traffig pan oedd wedi**<br>**parcio yn yr un lleoliad** | cael ei ddwyn am dramgwydd troseddol mewn cysylltiad â'r un digwyddiad parcio/aros | |
| **MC31 lle mae swyddog neu Aelod o'r Cyngor wedi parcio yn groes i'r rheolau a'i fod yn honni ei fod ar fusnes Cyngor** | Os oedd y swyddog yn ymgymryd â gwaith brys neu waith statudol arall. | Os gellir sefydlu y gallai'r swyddog/<br>Aelod yn rhesymol fod wedi parcio yn rhywle arall. |
| **MC32 lle'r oedd y modurwr wedi stopio i ollwng rhywun** | Dan amgylchiadau eithriadol ac yn amodol ar yr amseroedd arsylwi, fod rhaid i'r modurwr hebrwng teithiwr (plentyn, person oedrannus neu anabl) i gartref, neu ysgol, a bod y Swyddog Gorfodi Sifil wedi gweld yr amgylchiadau. | Os oedd y modurwr wedi parcio/stopio ar farciau cadwch yn glir gerllaw ysgol, croesfan i gerddwyr, clirffordd arhosfan bws. |
| **MC33 lle nad oedd y modurwr yn ymwybodol o'r Gwaharddiad Aros Dros Nos/cyfyngiad aros i Gerbydau Masnachol** | Os cafodd y modurwr ei gyfarwyddo/ awdurdodi gan yr heddlu i barcio yn groes i'r cyfyngiad. | Dan bob amgylchiad arall. |
| **MC34 lle mae'r modurwr yn datgan ei fod yn nalfa'r heddlu pan gafodd yr HTC ei gyflwyno** | Os oes prawf (gan yr Heddlu) wedi cael ei ddarparu bod yr heddlu wedi gorchymyn y modurwr i adael y cerbyd.<br><br>Os bydd yr amser arestio (rhaid cael prawf gan yr Heddlu) yn cadarnhau bod y modurwr wedi parcio'n gyfreithiol ac nad oedd modd iddo symud y cerbyd cyn i'r cyfyngiad ddechrau. | Os na ddarperir prawf.<br><br>Pe gallai'r cerbyd fod wedi cael ei barcio'n gyfreithiol cyn yr arestiad. |
| **MC35 lle mae'r modurwr yn dweud ei fod yn ymweld â ffrind neu berthynas dan amgylchiadau brys** | Os nad oedd, mewn argyfwng, modd osgoi'r tramgwydd parcio oherwydd natur eithriadol y digwyddiad. | Os yw'r modurwr eisoes wedi cael HTC sydd wedi cael ei ganslo am yr un rheswm.<br><br>Os yw nodiadau llyfr poced y Swyddog Gorfodi Sifil yn rhoi rheswm sylweddol i amau didwylledd y sylwadau. |
| **MC36 lle mae'r modurwr yn honni ei fod**<br>**wedi parcio ar eiddo preifat** | Os yw mapiau chwiliadau tir yn cadarnhau mai eiddo preifat yw'r lleoliad ac nad yw'n | Dan bob amgylchiad arall. |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | |
|---|---|---|
| | ddarostyngedig i'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig perthnasol.<br><br>Os nad oes digon o dystiolaeth i sefydlu lleoliad y cerbyd. | |
| **MC37 lle cafodd y modurwr ei ddal yn ôl cyn dychwelyd at ei gerbyd a oedd wedi cael ei barcio mewn lle parcio aros cyfyngedig** | Os oes tystiolaeth briodol i ategu hynny, bod sylwadau'r modurwr yn honni i'r oedi cyn dychwelyd at y cerbyd gael ei achosi gan amgylchiadau na ellid bod wedi eu rhagweld na'u hosgoi o gwbl, a'u bod yn gwbl eithriadol.<br><br>Os oedd cerbyd y modurwr wedi torri i lawr, yn amodol ar gyd-fynd â pholisi MC25, uchod.<br><br>Os nad oedd y modurwr yn gallu gyrru, ers parcio'r cerbyd. | Os oedd yr oedi a ddisgrifiwyd gan y modurwr yn un y gellid bod wedi ei osgoi'n llwyr, h.y. ciwio mewn siop.<br><br>Os mai'r modurwr oedd wedi tanamcangyfrif faint o amser oedd yn ofynnol ac y gallai'n rhesymol fod wedi prynu'r amser gofynnol.<br><br>Os nad oedd y modurwr yn gallu gyrru ers parcio oherwydd gormod o alcohol yn y corff neu ei fod wedi cael ei gadw gan yr heddlu am unrhyw reswm, oni bai iddo gael ei ryddhau'n ddigyhuddiad wedyn neu ei brofi'n Ddieuog. |
| **MC38 lle'r oedd y modurwr wedi parcio tra oedd yn gofyn am** | Os nad yw'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn gwrth- | Dan bob amgylchiad arall. |
| **gyfarwyddiadau/yn agor clwydi sy'n arwain at eiddo preifat** | ddweud y sylwadau. | |
| **MC39 lle'r oedd y modurwr wedi stopio i ateb ffôn symudol** | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. | Ar bob achlysur. |
| **MC40 lle mae'r modurwr yn dweud bod y manylion ar yr HTC yn anghywir, e.e. y lleoliad** | Os oes rheswm i amau a oedd yr HTC wedi cael ei gyflwyno'n gywir, ac ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Swyddog Gorfodi Sifil. | Os oedd yr Hysbysiad Tâl Cosb wedi cael ei gwblhau'n llawn ac yn gywir. |
| **MC41 lle mae'r modurwr yn dweud nad oedd yn ymwybodol y byddai'r rheolau'n cael eu gorfodi ar Wyliau Banc/Gwyliau Cyhoeddus** | Ddim dan unrhyw amgylchiadau. | Ar bob achlysur. |
| **MC42 lle mae'r modurwr yn dweud bod y cyfyngiad wedi cael ei farcio ar ôl i'r cerbyd gael ei barcio** | Os yw'r cofnodion yn cadarnhau ei bod yn debygol i'r arwyddion/llinellau/ gosod conau neu rybuddion ataliad ddigwydd ar ôl i'r cerbyd gael ei barcio. | Os oes tystiolaeth i ddangos bod y marciau eisoes yn eu lle pan barciwyd y cerbyd. |